Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

# Swydd Ddisgrifiad (SDd) Y Gwasanaeth Prawf

# Y Gwasanaeth Prawf Band 5

# Cyfarwyddiaeth: Y Gwasanaeth Prawf

# Swydd Ddisgrifiad: Rheolwr Rhaglenni

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | PS JES 0101 Programme Manager |
| **Math o Ddogfen** | Rheolaeth |
| **Fersiwn** | 2.0 |
| **Dosbarthiad** | Swyddogol |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 28/01/22 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Y Tîm Gwobrwyo |

**Tystiolaeth ar gyfer y SDd**

# Swydd Ddisgrifiad Y Gwasanaeth Prawf

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Rheolwr Rhaglenni |
| **Cyfarwyddiaeth** | Y Gwasanaeth Prawf |
| **Band** | 5 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Swydd ranbarthol yw hon, ac felly byddwch yn riportio'n uniongyrchol i Bennaeth Rhaglenni'r rhanbarth.<br><br>Byddwch yn gyfrifol am weithredu a rheoli cyfeiriad strategol a danfoniad effeithiol ymyriadau gan gynnwys Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig a Chanolfannau Ymbresenoli Uwch ar gyfer pobl ar brawf sy'n destun dedfryd gymunedol.<br><br>Byddwch yn gwneud hyn gan gydymffurfio â'r Fframwaith Uniondeb Ymyriadau, holl bolisïau sefydliadol perthnasol a safonau achredu HMPPS.<br><br>Bydd gennych gyfrifoldeb rheolaeth llinell uniongyrchol am dîm symudol gwasgaredig sy'n gweithio ar draws y rhanbarth. |
| **Crynodeb** | Bydd deiliad yn swydd yn gyfrifol am ddyrannu adnoddau'r tîm fel eu bod yn cael eu trefnu'n effeithiol i sicrhau bod ymyriadau o safon yn cael eu darparu, a bod targedau perfformiad yn cael eu bodloni yn unol â'r fframwaith dyrannu adnoddau.<br><br>Byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau a rhanddeiliaid eraill i sicrhau danfoniad cydlynol o wasanaethau gan sicrhau bod yr holl drefniadau iechyd a diogelwch ac amserlennu mewn lle i gyflawni canlyniadau da ar gyfer pobl sydd ar brawf. |
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | • Darparu rheolaeth llinell ac arweinyddiaeth effeithiol i dîm amrywiol sy'n cynnwys: Rheolwyr Triniaeth, Hwyluswyr, Gweithwyr Cyswllt Partner, Staff Canolfannau Ymbresenoli Hŷn a Gweinyddwyr a chynnal prosesau cadarn sy'n ymwneud â rheoli risg<br>• Cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod ymyriadau'n cael eu darparu yn unol â llawlyfrau rheoli rhaglenni, safonau perfformiad ac archwilio a bod y trefniadau mewn lle ar gyfer rheoli risg yn effeithiol<br>• Trosolwg strategol dros ddefnydd effeithiol o adnoddau wrth reoli rotas staff a datblygu cynlluniau wrth gefn i sicrhau parhad darpariaeth ymyriadau<br>• Sicrhau bod lefel ddigonol o Hwyluswyr Rhaglen hyfforddedig sydd wedi mynychu'r holl hyfforddiant gofynnol sy'n briodol i'r rhaglen y maent yn ei darparu<br>• Arwain y gwaith o hyrwyddo Rhaglenni Achrededig, Ymyriadau Strwythuredig a SAC a sicrhau bod y Farnwriaeth, Pobl ar Brawf ac Ymarferwyr Prawf yn gallu cael mynediad rhwydd a chywir at wybodaeth am raglenni<br>• Cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod safonau ansawdd yn cael eu cynnal a bod cydymffurfiaeth â safonau archwilio yn cael ei fonitro a bod perfformiad gwael a chwynion yn cael eu rheoli'n effeithiol i leihau risgiau i'r busnes<br>• Paratoi cynllun tîm blynyddol a'i adolygu, sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithiol ac ymateb i ddyletswyddau diogelu'r cyhoedd y tîm drwy drefniadau amlasiantaethol ac adolygu, trafod a rhoi adborth ar waith achos unigol<br>• Dechrau neu weithredu newid a datblygu gwasanaethau newydd yn unol ag egwyddorion ymarfer effeithiol gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael<br>• Rheoli'r adnoddau ariannol fel sy'n ofynnol gan y Pennaeth Rhaglenni ac yn unol â rheoliadau ariannol a pholisïau HMPPS ac ymgymryd â rôl arweiniol i gyflawni'r cynllun busnes a datblygu gwaith gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynrychioli'r Gwasanaeth Prawf fel sy'n briodol |

| | |
|---|---|
| | Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol, mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â deiliad y swydd yn y lle cyntaf. |
| **Ymddygiadau** | • Cydweithio, Datblygu Eich Hun a Phobl Eraill<br>• Cyflawni'n Gyflym<br>• Rheoli Gwasanaeth o Safon<br>• Gwneud Penderfyniadau Effeithiol<br>• Cyfathrebu a Dylanwadu<br>• Arweinyddiaeth |
| **Cryfderau** | Argymhellir dewis cryfderau yn lleol, awgrymir 4-8 |
| **Profiad Hanfodol** | • Dealltwriaeth o brif egwyddorion rhaglenni<br>• Profiad sylweddol o weithio mewn amrywiaeth o amgylcheddau gan gynnwys asesu a rheoli risg troseddwyr<br>• Dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Prawf yn y System Cyfiawnder Troseddol ac mewn cyd-destun aml-ddisgyblaethol<br>• Tystiolaeth o'r gallu i werthuso arferion<br>• Profiad o weithio dan bwysau a bodloni terfynau amser tynn<br>• Gallu dangos sgiliau TG da, gan gynnwys tystiolaeth o'r gallu i ddehongli adroddiadau perfformiad a'u rhoi ar waith<br>• Profiad o hybu a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant yn fewnol ac yn allanol |
| **Gofynion Technegol** | • Datryswr Problemau<br>• Arweinydd Tîm<br>• Canolbwyntio ar y Gwasanaeth<br>• Dadansoddol<br>• Effeithlon<br>• Cymhellwr<br>• Trefnydd |
| **Gallu** | |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gofynnol** | • Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddynt gychwyn swydd<br>• Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf i HMPPS.<br>• Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Lwfansau Oriau Gwaith (Oriau Anghymdeithasol)** | |

## Proffil Llwyddiant

| Ymddygiadau | Cryfderau<br>Argymhellir dewis cryfderau yn lleol, awgrymir 4-8 | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Cydweithio | | | Profiad helaeth gyda chofnod profedig o arferion da mewn amrywiol amgylchiadau (gan gynnwys asesiadau risg a rheoli troseddwyr) fel Swyddog Prawf neu wedi gweithio o fewn asiantaeth cyfiawnder troseddol arall neu gyd-destun gwaith cysylltiedig | Cymhwyster rheoli neu'r gallu i ddangos rheolaeth o strwythurau gweithdrefnol a threfniadol cymhleth. |
| Datblygu Eich Hun a Phobl Eraill | | | Profiad o reoli ac asesu risg, dealltwriaeth o asesiadau risg aml-asiantaethol a phrosesau rheoli. | Tystiolaeth o'r gallu i reoli staff |
| Cyflawni'n Gyflym | | | Tystiolaeth o'r gallu i werthuso arferion a darparu persbectif ymarferol ar ddatblygu polisïau | Dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Prawf yn y System Cyfiawnder Troseddol ac mewn cyd-destun aml-ddisgyblaethol |
| Rheoli Gwasanaeth o Safon | | | Profiad o weithio dan bwysau a bodloni terfynau amser tynn | Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltu â dioddefwyr |
| Gwneud Penderfyniadau Effeithiol | | | Profiad o weithio'n hyblyg | |
| Cyfathrebu a Dylanwadu | | | Targedau perfformiad | |
| Arweinyddiaeth | | | Profiad o gyfrannu at ddarparu systemau gweinyddol a systemau gwybodaeth effeithiol | |